

# DAFYDD MANUEL (1626?-1726), TREFEGLWYS A'I DDWY FERCH ANN A MARI (MALEN)

*Y CERDDOR.—Mawrth iaf 189.*

*Carol Plygain (ar Tri Thrawiad),*  
NEU  
GADAEL Y TIR Y FFORDD HWYAF.

Cydganed pob gene' yn beredd i'r bore',  
Trwy adrodd mawr wrthie a donie Duw Dad :  
Yn danfon ei unig wir Fab bendigedig,  
Yn Feddyg caredig a Ceidwad.  
Pan oeddem dan bechod danfonodd y Duwdod,  
Ail berson y Drindod er cymod y cam ;  
Yn rhad iechydwrith dros bob dyn ar unweth,—  
Hyn ydoedd hir obeth 'rhen Abram.

Fe ddwede'r Proffwydi yn llewyrch goleini,  
Y doi yr hael Iesu i'n prynu mewn pryd ;  
I dynu y caethion yn Adda yn rhyddion  
O'u tynion erch gyffion a'u gofid.

Hwn ydyw'r Iôr enwog a'r Llywydd galluog,  
Dyw Iesu dywysog Eneiniog y ne';  
Fe ddaeth ei Fawrhdydi i'r adfyd a'r tlodi,  
Yn fabi i Fari ar fore.

Hyn ydoedd ryfeddol ! Mab Duw yn ddyn enawdol,  
Yn blentyn naturiol da budduol i'r byd ;  
Fe rodd y Gorucha' ei Fab i'r byd yma,  
I dynu hil Adda o'i holl ofid.

Yn ifanc dechreue yn nerthol wneud gwrthie,  
Iachau pob clefyde a briwie'n y byd ;  
A'i air fe wnai'n rymys y dŵr yn win melys,—  
I'r clwyfys afiachys rho'i iechyd.

Y ffordd bydde'n cerdded gwnai'r deillion i weled,  
A hwythe'r byddaried i glowed yn glir ;  
Gwnai'r mud i lefaru a'r meirw i godi,  
Iachau pob diperli a dolur.

Wrth fyn'd dros y moroedd gostege'r temhestloedd,  
I'w air ufyddhaodd y gwyntodd a'r g'law ;  
Er hyny'r Iddewon groeshoelie y Cyfion,  
Trwy i ddeudroed rhoen hoelion a'i ddwylaw.

Bu tw'llwch dychrynllyd a daialogyn hefyd,  
Y dydd y croeshoeliwyd corph diwad Fab Duw ;  
Y ddaiar a gryne a agor wnai'r bedde,  
A'r Seintie gyfode, gwir ydyw !

Gweddio 'roedd ynte er maint y poenydie,  
Ar 'i Dad nefol fadde i beie i bob un ;  
A'i weddi ddiwedda oedd at y Gorucha,  
Am fadde i hil Adda'r holl ofyn.

Y trydydd dydd eilweth, cyfode o'i fedd ymeth,  
I fowyd yn berffeth—gor'chafieth yn glir ;  
I'r nef y dyrchafe lle mae byth yn eiste',  
Yn dadle pechode pechadur.

'Trown atto o 'wyllys i'w foli'n ofalus,  
Os mynwn Baradwys sef gwiw lys y gwawl ;  
Mynych fyfyrion a beunydd weddio,  
Yw'r ffordd hwnt i nwyfre'r wlad nefawl.

Os byddwn byw'n ddiwiol tra yma'n arhosol,  
Cawn fyn'd i'r wlad nefol—y freiniol wen fro ;  
Eneidie y cyfion medd Crist a'i 'Bostolion,  
Ga'fyn'd i'r nef dirion i dario.

Trown heibio pob maswedd erch bechod o'n buchedd,  
Gadawn yr anwiredd mae'r diwedd yn dod ;  
Can's blin a fydd ini am bob rhith drygioni—  
Bydd tafiu i'r du wely diwaelod.

Glanhawn y gydwytod a'n buchedd o bechod,  
Ymg'weiriwn yn barod i dd'wrnod a ddaw ;  
Os da fydd ein buchedd cawn fyw mewn gorfoedd  
Byth ar ei dda haeledd ddeheulaw.

ANN MANUEL A'I CANT.

Y mae llawysgrif wreiddiol yr hen Garol dra hyfryd uchod yn meddiant Mr. Nicholas Bennett, U.H., Glanrafon, Maldwyn — cyfaill mynwesol i'r prif delynegwyr, Mynyddog a Ceiriog, ac o ran hyny, i bob gwir awenydd. Gadewir yr orgraff yn hollol fel y mae yn y llawysgrif.

Yr oedd tad Ann, yr hwn a flodeuai tua'r flwyddyn 1700, yn gryn brydydd yn ei ddydd, ac yn byw mewn bwthyn o'r enw Bryfdîr, ar fferm Gwernafon, Trefeglwys, felly adnabyddid ef fel "Yr hen Fanuel o'r Bryfdîr," neu "Hen Fanuel y Prydydd." Yr oedd iddo ddwy ferch—Ann a Mari, a'r ddwy yn meddu ar y ddawn i brydyddu, tra yr oedd yr olaf yn dra hyddysg mewn canu Penillion gyda'r delyn. Yn y "Welsh Harper," ceir Alaw o'r enw "Hoffedd merch Dafydd Manuel." (Gweler "Montgomeryshire Worthies," gan Richd. Williams, F.R.H.S.)

D. E. E.

## Allan o Montgomeryshire Worthies gan Richard Williams:

MANUEL, DAFYDD, a poet, who lived in a cottage called Byrdir, on Gwernafon farm, Trefeglwys, and who flourished about the year 1700. A poem of his, entitled "Bustl y Cybyddion,"—a satire upon Avarice—was published in the *Blodeugerdd*, and many of his carols and compositions were published in various collections about the beginning of the last century. Some have also appeared in print for the first time in Lloyd's *History of Powys Fadog*. He was present at an eisteddfod at Machynlleth in the summer of 1701, when he composed an englyn, which may be found in the *Gwyliedydd* for 1836. Some traditions of him may also be found in *Y Brython* vol. V., p. 209, The Peniarth MSS. include a large number of his compositions. Mr. Nicholas Bennett, of Glanyrafon, has also about thirty of them in MS. dated between 1689 and 1719, some displaying considerable merit. Dafydd Manuel ("Yr hen Fanuel o'r Byrdir," or "Yr hen Fanuel y Prydydd" as he was generally called) lived to an extreme old age, being, it is said, 101 years old when he died. The parish register of Trefeglwys contains the following entry of his burial:—"David Manuel sepult. fuit 16 die Maii 1726."—His wife Margaret had died before him in 1699. They left three children—a son David, usually called "Deio," and two daughters, Mary (Malen) and Anne. The daughters were excellent poets, and several of their compositions in MS. are in Mr. Bennett's possession. Mary was especially noted for her ready wit and power of repartee, and as a Penillion singer with the harp—a mode of singing which to be effective, demands very great skill, a quick ear, and a retentive memory. In Bardd Alaw (Parry)'s *Welsh Harver.* vol. 2. we have a melody associated with her name, namely, "Hoffedd Merch Dafydd Manuel," (The delight of David Manuel's daughter.)